**Cyfrifon Taladwy Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)**
**Hysbysiad Preifatrwydd**

## 1. Cyflwyniad

Mae GIG Cymru yn gartref i sawl sefydliad iechyd, sy'n cynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Mae PCGC yn hwyluso llawer o swyddogaethau ar ran holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru.

Cyhoeddwyd y daflen hon gan PCGC i ddisgrifio'r gwaith o hwyluso gwybodaeth adnabyddadwy o fewn swyddogaeth Cyfrifon Taladwy sy'n rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr wybodaeth yn y daflen hon, dylech gysylltu â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC.

## 2. Eich hawliau

Mae'r daflen hon (neu Hysbysiad Preifatrwydd) yn cynnwys yr hawliau o dan ddeddfwriaeth newydd, sef y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Fel rheol, caiff ei defnyddio i egluro hawliau'r unigolyn a sut y byddwn yn prosesu data adnabyddadwy am unigolyn neu unigolion.

Ar yr achlysur hwn, mae'r wybodaeth hon yn pwysleisio angen PCGC i sicrhau ein bod yn egluro sut y defnyddir yr wybodaeth hon ar gyfer prosesu Cyfrifon Taladwy.

Bydd yr wybodaeth a roddwn ichi am sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth adnabyddadwy hon:

- yn gryno, yn hawdd ei darllen ac yn hygyrch
- wedi'i hysgrifennu'n glir ac yn syml ac
- yn rhad ac am ddim.

## 3. Pa gyfreithiau ydyn ni'n eu dilyn?

Mae'r gyfraith yn pennu sut y gallwn ddefnyddio gwybodaeth adnabyddadwy, waeth ar ba ffurf y daw (papur/electronig). Dyma restr o'r cyfreithiau rydym yn eu dilyn sy'n caniatáu inni ddefnyddio gwybodaeth adnabyddadwy:

- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- Bil Diogelu Data'r DU
- Y Ddeddf Hawliau Dynol
- Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin
- Y Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron

- Deddf y Comisiwn Archwilio
- Y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol

**Diben**

Mae tîm Cyfrifon Taladwy Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn darparu gwasanaeth canolog i GIG Cymru mewn perthynas â thalu anfonebau cyflenwyr fel rhan o broses Prynu i Dalu (P2P) GIG Cymru.

Ers 1 Medi 2019, mae'r tîm Cyfrifon Taladwy yn rhan o is-adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol PCGC. Mae'r tîm Cyfrifon Taladwy yn gyfrifol am lwytho anfonebau cyflenwyr i Oracle, cydweithio â staff Gwasanaethau Caffael a staff Byrddau Iechyd i ddatrys ymholiadau anfonebau, talu'r anfonebau hynny pan gânt eu rhyddhau/hawdurdodi i'w talu a gosod cyflenwyr newydd ac unrhyw weithgarwch cynnal a chadw cyflenwyr.

Mae gan y gwasanaeth dros 110 o staff sy'n rhan o'r broses talu anfonebau, ac maent yn prosesu rhyw 1.8 miliwn o anfonebau bob blwyddyn sydd gyda'i gilydd â gwerth blynyddol o £5 biliwn, a hynny ar gyfer tua 16,000 o gyflenwyr.

Prosesir tua 98% o'r anfonebau'n electronig. Mae gan y mwyafrif o anfonebau archeb prynu. Cyflwynwyd polisi Dim Archeb Prynu, Dim Tâl Cymru Gyfan yn GIG Cymru ar 1 Medi 2018. Mae rhestr gytunedig o eithriadau, a chaiff yr anfonebau hyn eu cymeradwyo a'u prosesu'n uniongyrchol trwy Oracle heb fod angen codi archeb prynu.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth geisio cyrraedd targed statudol y Llywodraeth o dalu 95% o anfonebau cyflenwyr cyn pen 30 diwrnod.

Er mwyn sicrhau rheolaethau priodol, cyflawnir tua 30 adroddiad gwahanol yn ddyddiol, yn wythnosol ac yn fisol er mwyn archwilio pob agwedd ar y cylch talu a chyfateb gan ddefnyddio adroddiadau Caffael 'Gwybodaeth Busnes'. Un gwiriad pwysig a wneir yw'r gwiriad i nodi, archwilio ac adfer unrhyw daliadau a wnaed ddwywaith.

## 4. Pa fath o wybodaeth bersonol y mae Cyfrifon Taladwy yn ei defnyddio?

Er mwyn cyflawni gweithgarwch prosesu fel sefydliad GIG Cymru, rydym yn defnyddio gwybodaeth adnabyddadwy a allai fod ei hangen er mwyn nodi a dilysu anfoneb neu daliad ac i'w prosesu. Gall fod yn wybodaeth adnabyddadwy am glaf neu'n wybodaeth adnabyddadwy personol o'r ffynhonnell a chaiff ei thrin yn gyfrinachol tra y bydd yn cael ei chadw yn y gwasanaeth.

Mae gwybodaeth adnabyddadwy hefyd yn cael ei chofnodi yn ôl math mewn cronfa ddata ganolog sy'n cyfrif am yr holl brosesau sy'n cael eu cwblhau ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Gelwir hyn yn "Gofrestr Asedau Gwybodaeth".

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn cynnwys gwybodaeth adnabyddadwy a gedwir am unigolion, dim ond gweithgarwch prosesu fel yr eglurwyd yn adran 3 uchod

## 5. Pam y caiff gwybodaeth ei phrosesu o fewn Cyfrifon Taladwy?

Nid yw prosesau a ystyriwyd yn Gyfrifon Taladwy yn cynnwys cydsyniad, a defnyddir data a gedwir ac a gyflwynwyd i Gyfrifon Taladwy pan gaiff ei gyfiawnhau gan y gyfraith.

Yn yr achos hwn, o dan erthygl 6 o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (cyfreithlondeb prosesu) mae'r canlynol yn berthnasol:

(e) Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio yn y rheolwr.

Mae'r rhesymau pam y bydd Cyfrifon Taladwy yn prosesu data yn cynnwys:

- prosesu anfonebau cyflenwyr, nodau credyd a cheisiadau talu â llaw
- prosesu a chyflawni adroddiadau/gwiriadau dadansoddi

## 6. Rhannu gwybodaeth

Dim ond at y dibenion canlynol y caiff gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth adnabyddadwy a gwybodaeth gyfrinachol ei rhannu â phartïon eraill:

- Dilysu gwybodaeth (gan gynnwys gordalu neu ddyblygu anfonebau neu daliadau)
- Ymarferion Gwerth am Arian (gan gynnwys defnyddio dangosfwrdd Cyfrifon Taladwy a Chaffael)
- Ymarferion arbed costau

O dan y gyfraith, rhennir a defnyddir gwybodaeth adnabyddadwy sy'n gysylltiedig â phrosesu Cyfrifon Taladwy gan swyddogion sy'n gyfrifol am y prosesau a esboniwyd yn Adran 3 uchod er mwyn sicrhau y telir anfonebau ac y defnyddir gwybodaeth ariannol/cyllidebol yn gywir. Caiff gwybodaeth ei rhannu dim ond fel y gall y bobl briodol gydweithio i brosesu gwybodaeth o fewn lleoliad Cyfrifon Taladwy.

Mae’n bwysig nodi bod gan unrhyw un sy’n derbyn gwybodaeth adnabyddadwy mewn perthynas â swyddogaethau Cyfrifon Taladwy ddyletswydd gyfreithiol i’w chadw’n gyfrinachol a rhaid bod ganddynt reswm dilys i’w derbyn a’i chadw.

Dim ond yr wybodaeth angenrheidiol y bydd PCGC yn gofyn amdani, yn ei defnyddio ac yn ei rhannu i gwblhau’r dasg hon.

Ni fyddwn byth yn gwerthu gwybodaeth ac ni fyddwn yn ei rhannu heb yr awdurdod cyfreithiol priodol.

## 7. Diogelwch Gwybodaeth

Mae PCGC yn cymryd y cyfrifoldeb sydd ganddi i warchod eich gwybodaeth adnabyddadwy yn ddifrifol iawn. Ni waeth a yw'r wybodaeth honno ar ffurf electronig neu ar bapur.

Rydym hefyd yn cyflogi rhywun sy’n gyfrifol am reoli gwybodaeth a’i chyfrinachedd er mwyn sicrhau:

- bod yr holl wybodaeth wedi ei diogelu, ac er mwyn
- rhoi gwybod ichi sut y caiff ei defnyddio.

Mae disgwyl i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant yn rheolaidd.

Mae angen hyfforddiant cynhwysfawr er mwyn gallu diogelu’r wybodaeth sydd wedi ei rhoi i PCGC. Mae’r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod pob aelod o staff sy’n gweithio yn GIG Cymru yn ymwybodol o’i gyfrifoldebau mewn perthynas â thrin eich gwybodaeth adnabyddadwy, ni waeth pa adran mae’n gweithio ynddi.

### Gwerthuso Cyfrinachedd

Bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am reoli cyfrinachedd hefyd yn ystyried preifatrwydd a chyfrinachedd unrhyw ddata a gedwir ac os bydd yn cael eu defnyddio mewn ffordd wahanol. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan gynigir defnyddio technolegau newydd neu pan ystyrir newidiadau i'r trefniadau cyfredol.

## 8. Caniatâd (Cydsyniad)

Er mwyn sicrhau bod y defnydd o wybodaeth bersonol yn gyfreithlon, mae’n bosibl y bydd PCGC yn gofyn am ganiatâd i’w defnyddio o dan amgylchiadau penodol. Nid yw’n angenrheidiol os yw at ddiben cyfreithlon o dan y gyfraith bresennol a byddai hyn yn cynnwys prosesu gwybodaeth o fewn y tîm Cyfrifon Taladwy, gan na fyddai angen ystyried cydsyniad ar gyfer gweithgarwch prosesu o fewn y swyddogaeth hon.

Gofynnir am gydsyniad fel rheol ar gyfer y defnydd o wybodaeth defnyddwyr gwasanaeth penodol mewn mesydd megis gofal cleifion.

Mewn perthynas â chydsyniad sy’n ofynnol gan unigolyn, bydd wedi’i roi’n fodlon heb fod dan bwysau i’w roi. Gwneir hyn mewn modd eglur, ac mae’n rhaid i’r sawl y gofynnir iddo fod yn ymwybodol o sut y caiff ei wybodaeth ei thrin.

## 9. Penderfyniadau a wneir yn awtomatig

Mae PCGC hefyd yn cymryd camau i atal y risgiau a all godi o gymryd penderfyniadau yn awtomatig:

Bydd hyn yn berthnasol i chi pan:

- fydd yn broses awtomatig a
- fydd gan benderfyniad a wnaed â’ch gwybodaeth rym cyfreithiol.

Mae’n bosibl y bydd tîm Cyfrifon Taladwy PCGC yn awtomeiddio rhai penderfyniadau â’ch gwybodaeth, ond fel arfer bydd rhywfaint o fewnbwn gan fod dynol wrth wneud hyn. Er enghraifft, uwchlwytho/trosglwyddo gwybodaeth i systemau, adrodd, cyfrifo â llaw a phrosesau gwirio.

Fodd bynnag, bydd PCGC yn cymryd camau i nodi faint o benderfyniadau a wneir yn awtomatig ac i ystyried a yw’r rhain yn dderbyniol.

### Beth am broffilio awtomataidd?

Proffilio awtomataidd yw lle bydd GIG Cymru ond yn defnyddio gwybodaeth i adnabod a cheisio dadansoddi gwybodaeth am berson.

At ddibenion Cyfrifon Taladwy, mae'n annhebygol iawn y bydd proffilio awtomataidd yn berthnasol.

Bydd PCGC yn sicrhau bod unrhyw broffilio awtomatig yn deg ac yn gyfreithlon. Bydd PCGC yn defnyddio gweithdrefnau priodol, gan gynnwys lleihau gwallau lle bo data yn anghywir os caiff ei ystyried bod proffilio awtomatig yn berthnasol.

### Cadw gwybodaeth

Ni fyddwn ond yn cadw gwybodaeth am gyhyd ag y bo angen. Cedwir cofnodion yn unol ag atodlen cadw a gwaredu Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn pennu’r cyfnod lleiaf o amser y dylid cadw cofnodion.

## Gwneud cwyn

Os ydych chi am gwyno am unrhyw faterion rydych chi wedi'u profi ynglŷn â'ch gwybodaeth adnabyddadwy neu ofyn unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â chyfrinachedd gwybodaeth o'r fath, cysylltwch â:

Tim Knifton
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth
Tim.knifton@wales.nhs.uk

Os ydych chi'n dal yn anfodlon yn dilyn eich cwyn, mae gennych yr hawl i wneud cwyn i:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Ail Lawr, Tŷ
Churchill, 17
Ffordd Churchill,
Caerdydd, CF10
2HH

E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk
Gwefan: www.ico.org.uk

## Dolenni

Rhagor o wybodaeth am swyddogaeth Cyfrifon Taladwy

https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/cyfrifon-taladwy/

Cwestiynau Cyffredin

https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-caffael/gwybodaeth-am-wasanaethau-caffael/cwestiynau-cyffredin/cwestiynau-cyffredin-ynghylch-cyfrifon-taladwy/

## Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r daflen hon, neu os oes unrhyw gwestiynau gennych am yr wybodaeth hon, cysylltwch â Russell Ward, Pennaeth Cyfrifon Taladwy ac e-Alluogi neu:

E-bost: Russell.ward@wales.nhs.uk